

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Medi 4ydd, 2014 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr John Williams, (Cadeirydd); Ifor Wyn Davies, (Is gadeirydd); Margaret Griffith; Aled Lloyd Evans; Trefor Wyn Jones; Gwilym M Thomas; Marian Evans; Anwen Jones; William Ifor Hughes; Alwen Evans; Elis Gwyn Jones; Thomas Prys Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau; Y Cynghorwyr Dafydd Williams, Naomi Jones a Brian W Ifans.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod Gorffennaf 3ydd, 2014.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

4. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned. Derbyniwyd ond roedd cais i ofyn beth sydd yn digwydd ynghylch yr asesiad ar y cyd rhwng yr archwiliwr priffyrdd a'r archwiliwr gorfodaeth ynghylch rhwng Llwyn yr Eryr a Rhos Ddu.

2. Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Trafnidiaeth a gofal Stryd; Ail asesu blaenoriaeth trafniadaeth yng Ngroeslon Penybryn, Rhydycroesau. Derbyniwyd y cais gan Gyngor Gwynedd i drefnu cyfarfod safle, y Clerc i drefnu gyda'r Cyngor Sir a'r Cynghorydd Trefor Wyn Jones.

3. Technegydd Cludiant Gweithredol; Lloches bws Afonwen. Daeth e bost oddi wrth Gyngor Gwynedd yn mynegi eu bod wedi derbyn cwyn bod panel ar goll yn y lloches bws, ochr Penygroes Llanystumdwy. Penderfynwyd gofyn am bris i Mr D E Williams, Llithfaen am osod panel polycarbonate newydd.

4. Swyddog Llwybrau; Llwybr Clawdd Llanw, Bontfechan. Derbyniwyd er gwybodaeth bod oedi ynghylch gosod y giatiau mochyn y naill ochr i'r rheilffordd. Erbyn hyn mae'r gwaith wedi'i gwblhau ac mae'r gamfa arall ochr Ty'n Morfa wedi'i hatgyweirio.

5. Technegydd Traffig (dros dro); arwydd ar groeslon Tyddyn Sianel i rwystro loriau trwm rhag mynd drwy bentref Llanystumdwy. Penderfynwyd derbyn yr ateb nad oes lle i osod arwydd ychwanegol ar yr arwyddbost ar y groeslon, bod arwydd yn cyfeirio at yr A497 yno'n barod. Penderfynwyd gofyn am gael newid i roi blaenoriaeth i drafnidiaeth yn dod o Roslan.

6. Adran Economi a Chymuned; Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer, Rheolwr Prosiect ein Treftadaeth – Paneli Ffynnon Cybi. Derbyniwyd er gwybodaeth y bydd y paneli yn eu lle yn fuan.

6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned y gwnaed sylwadau arnynt ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd/Cynghorwyr.

1. Cais rhif C14/0685/41/LL – Gosod peiriant golchi loriau a chreu bwnd sgrinio; Glanllynau, Chwilog. Cefnogi. Cymeradwyd y penderfyniad.

2. Cais rhif C14/0706/41/LL – Creu pwll slyri tanddaearol o fewn sied amaethyddol presennol; Maenllwyd, Pencaenewydd. Dim Gwrthwynebiad; Cymeradwyd y penderfyniad.

3. Cais rhif C14/0558/41/LL – Newid defnydd tir o amaeth i gwrtil domestig a chodi garej/gweithdy; Lleifior, Llangybi. Dim Gwrthwynebiad; Cymeradwyd y penderfyniad.

Yn ychwanegol gofynnwyd am sylwadau ar ddau gais y tu allan i'r gymuned hon; Penystumllyn, Cricieth ac arwyddion i siop fawr newydd yng Nghaernarfon! Ni anfonwyd sylwadau.

Cais cynllunio ddaeth heddiw:

Cais rhif: C14/0812/41/AM – Caniatad amlinellol am estyniad a newidiadau i adeilad ddiwydiannol; Uned 1-2 Parc Amaeth, Llanystumdwy. Doedd dim manylion ynghylch y cais yma; gofynnwyd i'r Cynghorwyr anfon eu sylwadau at y Clerc iddo gael ymateb mewn da bryd cyn 25/09/2014.

7. Holiadur angen am dai lleol. Trafodwyd ymhellach a phenderfynwyd derbyn y pris am baratoi 500 o holiaduron i'w rhannu yn Ward Llanarmon. Bydd angen rhannu'r holiaduron a threfnu blychau casglu'r holiaduron yn lleol.

8. Arolwg blynyddol offer Cae Chwarae Llangybi. Nid oes adroddiad wedi dod yr haf yma hyd yma. Penderfynwyd gwneud ymholiadau gyda Fields in Trust.

9. Gohebiaeth oddi wrth Gyngor Cymuned Llannor ynghylch gofyn am gefnogaeth i lythyr oeddent wedi'i anfon i Lywodraeth Cymru am y ddogfen Ymgynghori Mynediad i Wybodaeth Cynghorau Tref a Chymuned. Penderfynwyd anfon ateb yn esbonio'n union yr hyn sydd yn digwydd yn y Cyngor yma sef bod safle we wedi'i sefydlu, rhai rhannau ohoni'n ddwyieithog, bod manylion cyswllt y Cynghorwyr ar y safle, nad oes bwriad cyfieithu'r cofnodion ond bod cyfeithiad lafar o gofnod ar gael ond cysylltu gyda'r Clerc. Yn ogystal gofynnwyd am i gopi o'r Polisi Iaith fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf, 2014 gael ei anfon at Gyngor Cymuned Llannor.

10. Gohebiaeth oddi wrth Gyfeillion Llŷn yn gofyn i'r Cyngor yma ystyried mabwysiadu Polisi Iaith y maent hwy wedi'i greu. Penderfynwyd ateb y llythyr i ddweud bod y Cyngor yma yn cytuno gyda'r syniad ond yn hapus gyda'r Polisi Iaith sydd newydd gael ei fabwysiadu gan y Cyngor yma ym mis Gorffennaf eleni. Yn ogystal i anfon copi o'r Polisi Iaith at Gyfeillion Llŷn. Gofynnwyd i'r Clerc esbonio'n union yr hyn sydd yn digwydd yn y Cyngor yma sef bod safle we wedi'i sefydlu, rhai rhannau ohoni'n ddwyieithog, nad oes bwriad cyfieithu'r cofnodion ond bod cyfeithiad lafar o gofnod ar gael ond cysylltu gyda'r Clerc.

11. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; Rali Flynyddol Na i or-ddatblygu Cymru – 2pm, Hydref 4ydd, Pwllheli. Derbyniwyd er gwybodaeth.

12. Materion yn y gymuned.

Rhoslan a'r Ynys

1. Gor dyfiant ar gloddiau Llwyn yr Eryr. Mae gohebiaeth ynghylch hwn ar raglen heno, Cyngor Gwynedd, rhif 5 -1, Materion y Gymuned. Gweler y cofnod uchod.

Llanystumdwy

1. Gwelediad y ddwy ochr i bont y pentref oherwydd coediach yn gor dyfu.
2. Angen barbio'r llwybr sydd yn mynd heibio Cyrion, yr hen ffordd i Abercin.

Penderfynwyd cysylltu gydag adrannau perthnasol y Cyngor Sir i ofyn iddynt wneud y gwaith.

Chwilog

1. Cais i gael bws Caelloi i fynd drwy Lanarmon unwaith yn y bore ac unwaith yn y pñawn. Penderfynwyd cystylltu gyda'r adran berthnasol yn y Cyngor Sir i ofyn iddynt roi ystyriaeth i'r cais.

Llangybi

1. Y llwybr at Ffynnon Gybi trwy fynwent yr Eglwys, mae llechen yn rhydd ar y ris gyferbyn â Ty'n Gamfa. Penderfynwyd cysylltu gyda Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt ei thrwsio rhag blaen.

2. Anesmwythyd lleol ynghylch Cartrefi Cymunedol Gwynedd:

a. eu bod yn defnyddio contractwyr o'r tu allan i Gymru.

b. eu bod yn rhoi talebau prynu papur a phaent i'w tenantiaid eu cyfnewid mewn siop yn Llandudno; hyn yn peri anhwylystod mawr.

Penderfynwyd anfon llythyr at Gartrefi Cymunedol Gwynedd i gwyno am hyn ac i anfon copi at Yr Arglwydd Elis-Thomas, A C.

13. Materion heb gael ymateb iddynt. Gofynnwyd i'r Clerc anfon eto ynghylch y dŵr sy'n cronni ger mynedfa Tyddyn Llan, Llangybi ar ôl glaw trwm ac i holi ynghylch yr arwydd am Langybi sydd wedi diflannu ger groeslon Cae Brwyn; mae'r polyn yn dal yno.

14. Un Llais Cymru;

a. Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blyneddol, Llanelwedd, dydd Sadwrn Hydref 4ydd, 2014. Dewisiwyd y Cynghorydd Trefor Wyn Jones a'r Clerc i fynd i'r cyfarfod.

b. Cynigion ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Derbyniwyd.

c. Rhaglen Hyfforddiant. Roedd y Cynghorydd Aled Lloyd Evans yn awyddus i fynd ar y cwrs Modiwl 12 - Cynllunio Cymunedol, cyfrwng Cymraeg, gynhelir yng Nghaernarfon nos Fercher, Hydref 1af, 2014 rhwng 6.30pm a 9.00pm; y Clerc i wneud y trefniadau.

15. Gwahoddiad i'r Cadeirydd/Is gadeirydd i Wasanaeth Dinesig y Maer yng Nghapel y Drindod, Pwllheli, dydd Sul, Hydref 5ed, 2014 am 10 y bore. Derbyniwyd er gwybodaeth.

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

.

.